Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Materion Arolygu

Rhifyn 12 **Tachwedd 2009**

Gwybodaeth am drefniadau arolygu

Yn berthnasol i: Arolygwyr ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion

Cynnwys

1	**Cyffredinol**	**1**
1.1	Hyfforddiant trawsnewid Estyn 2010 ar gyfer arolygwyr ysgol	1
1.2	Atodiad 5 Adroddiadau Arolygu Adran 28: Diffinio rôl yr Enwebai	1
1.3	Arweiniad ar Arolygiadau Estyn yn ystod Pandemig Ffliw	1
2	**Y Cyfnod Sylfaen**	**5**
2.1	Lleoliadau nas cynhelir sy'n gymwys i gael cyllid addysg	5
2.2	Addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (plant y dosbarth derbyn)	5
2.3	Maint dosbarthiadau babanod	5
3	**Materion arolygu ar gyfer ysgolion cynradd**	**7**
3.1	Rôl cydlynwyr y cwricwlwm ac arweinwyr pwnc mewn ysgolion cynradd	7
3.2	Arweiniad i Arolygwyr Cofrestredig ar ddefnyddio Setiau Data Craidd Cymru Gyfan wrth arolygu ysgolion cynradd, 2009-2010	7
4	**Materion arolygu ar gyfer ysgolion uwchradd**	**9**
4.1	Arweiniad i Arolygwyr Cofrestredig ar ddefnyddio Setiau Data Craidd Cymru Gyfan wrth arolygu ysgolion uwchradd, 2009-2010	9
4.2	Cwrs hyfforddiant diweddaru uwchradd: Llawlyfr i Gynrychiolwyr	11
4.3	Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009	11

1 Cyffredinol

1.1 Hyfforddiant trawsnewid Estyn 2010 ar gyfer arolygwyr ysgol

Bydd yn ofynnol i bob arolygydd annibynnol sydd ar gronfa ddata Estyn ar hyn o bryd ymgymryd â hyfforddiant trawsnewid yn ystod tymor yr haf 2010 os ydynt yn dymuno arolygu yn y cylch newydd o fis Medi 2010. Ni fydd arolygwyr nad ydynt yn mynychu ac yn cwblhau'r hyfforddiant trawsnewid yn llawn yn gymwys i arolygu o fis Medi 2010 ymlaen, a chânt eu tynnu oddi ar restr arolygwyr ymrestredig Estyn. Byddwn yn ysgrifennu at arolygwyr gyda mwy o fanylion ac yn eu gwahodd i ymgeisio am yr hyfforddiant wedi i'r trefniadau gael eu cadarnhau.

1.2 Atodiad 5 Adroddiadau Arolygu Adran 28: Diffinio rôl yr Enwebai

Mae Atodiad 5 adroddiadau arolygu Adran 28 yn rhoi manylion am rolau a chyfrifoldebau'r tîm arolygu. Ar hyn o bryd, mae adroddiadau'n dangos amrywiad mawr yn y modd y caiff rôl yr enwebai ei diffinio, gan amrywio o ddisgrifiad manwl i ddim cyfeiriad o gwbl.

O hyn ymlaen, dylai Atodiad 5 roi enw'r enwebai ac yn y golofn **Cyfrifoldebau**, ddweud 'enwebai' yn unig.

1.3 Arweiniad ar Arolygiadau Estyn yn ystod Pandemig Ffliw

Cyflwyniad

Mae'r llywodraeth yn ein cynghori ni y dylai busnes, lle bynnag y bo modd, fynd ymlaen fel arfer yn ystod pandemig ffliw. Bydd Estyn yn parhau i weithio yn ystod pandemig ffliw oni bai bod prinder staff neu ffactorau lleol eraill, fel methiant yn y rhwydweithiau cludiant neu seilwaith hanfodol, yn gwneud parhau i weithio yn amhosibl. Mae gan Estyn gynlluniau parhad busnes yn eu lle a fyddai'n cael eu rhoi ar waith pan fydd difrifoldeb pandemig yn cynyddu.

Mae'r arweiniad hwn yn bodoli mewn cyd-destun lle na fydd cyfrifoldebau arolygu ac adrodd statudol eang Estyn yn cael eu gohirio ac yng nghyd-destun y gofyniad bod darparwyr yn parhau i weithredu yn unol â'r cyfrifoldeb statudol hwnnw.

Bydd angen adolygu ymateb Estyn i'r pandemig ffliw presennol a'i newid lle bo angen wrth i'r pandemig ddatblygu ac wrth i wybodaeth arall ddod i law neu lle deëllir yr effeithiau yn well.

Egwyddorion

Bydd Estyn yn cael ei arwain gan yr egwyddorion canlynol er mwyn cydnabod y pwysau tebygol ar ddarparwyr ac arno'i hun wrth reoli ei adnoddau adeg pandemig:

- lleihau'r niwed y gallai pandemig ei achosi i'r eithaf;
- gweithio gyda'n gilydd;

- bod yn gymesur; a

- hyblygrwydd.

Gwaith arolygu a gweithgareddau ychwanegol

Wrth gyflawni ei waith, bydd Estyn yn ceisio cynnal ei batrymau a'i fethodoleg arolygu presennol. Bydd Estyn yn rheoli'r gwaith mewn modd cyfrifol, o fewn amgylchiadau newidiol. Petai'r pandemig ffliw presennol yn gwaethygu, gwneir penderfyniad am briodoldeb ymweld â darparwr ar sail pob achos unigol.

Byddwn yn disgwyl i ddarparwyr barhau i weithredu yn unol â chyfrifoldebau statudol a fframwaith arolygu Estyn. Disgwyliwn hefyd y bydd unrhyw gyngor atodol ar reoliadau a ddaw oddi wrth LlCC neu gyngor gan y Prif Swyddog Meddygol neu gyrff iechyd cyhoeddus eraill hefyd yn cael eu hystyried.

Os penderfynir peidio ag ymweld â darparwr, caiff hyn ei gyfleu yn ffurfiol i'r darparwr gyda gofyniad bod dysgwyr a rhieni (lle bo hynny'n briodol) yn cael eu hysbysu.

Byddwn yn cymhwyso'r un ymagwedd tuag at ein gweithgareddau ychwanegol, gan gynnwys ymchwilio i gŵynion, ymweliadau monitro ac adolygu ac ymweliadau cofrestru yn achos ysgolion annibynnol.

Cwestiynau ac Atebion am y pandemig ffliw

<u>Ysgolion/colegau/cwmnïau gyrfaoedd/darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned a Dysgu yn y Gwaith</u>

C1 Mae nifer o ddisgyblion/dysgwyr/staff yn absennol oherwydd y pandemig ffliw. A fydd yr arolygiad yn mynd yn ei flaen?

A Byddai hyn yn cael ei ystyried ar sail achos wrth achos a byddai'r canlyniad yn dibynnu ar niferoedd gwirioneddol y rhai sy'n absennol. Pan fo niferoedd sylweddol o ddysgwyr neu aelodau o staff yn absennol, bydd Estyn yn ystyried un o'r canlynol.

Gall Estyn:

- ohirio'r arolygiad a'i aildrefnu trwy ymgynghori â'r ysgol/darparwr/contractwr;

- mynd ymlaen ond ystyried yr absenoldebau a rhoi barnau yng nghyd-destun y sefyllfa bresennol; neu

- leihau nifer y diwrnodau arolygu.

C2 Sut bydd arolygwyr yn llunio barn ar bresenoldeb pan fo'r pandemig ffliw wedi effeithio ar ddarparwr?

A Wrth arolygu presenoldeb, pan fo'r absenoldeb yn cael ei achosi'n bennaf gan y pandemig ffliw, ystyrir patrymau presenoldeb blaenorol. Yn ychwanegol, bydd yr adroddiad yn esbonio cyd-destun yr arolygiad yn glir.

Awdurdodau Lleol

C3 Mae nifer o'n hysgolion ar fin cael eu harolygu, ac mae absenoldebau staff a disgyblion yn effeithio arnynt i gyd. A fydd yr arolygiadau yn mynd yn eu blaenau?

A Gweler C1 uchod.

Contractwyr Arolygu Ysgolion

C4 Beth fydd yn digwydd os yw'r ysgol y disgwylir i ni ei harolygu wedi cau oherwydd y pandemig ffliw?

A Bydd Estyn yn rhoi gwybod i gontractwyr bod yr ysgol wedi cau ac yn gofyn iddynt gysylltu â'r ysgol/AALl cyn gynted ag y bo modd i drefnu dyddiadau eraill ar gyfer yr arolygiad.

C5 Beth os bydd aelodau o'r tîm yr wyf yn dymuno'i ddefnyddio ar arolygiad yn anhwylus ac na ellir eu defnyddio?

A Fel contractwr, mae gennych gyfrifoldeb cytundebol i gynnal yr arolygiad, a byddem yn disgwyl i chi ddod o hyd i bobl eraill addas yn eu lle ar gyfer y tîm arolygu a rhoi gwybod i Estyn am y tîm arolygu diwygiedig. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosibl, yna byddem yn disgwyl i chi roi gwybod i Estyn ar unwaith a chysylltu â'r ysgol/AALl i gytuno ar ddyddiadau eraill ar gyfer yr arolygiad.

Arolygwyr

C6 Mae gennyf gontract fel Arolygydd Ychwanegol. Beth sy'n digwydd os yw'r arolygiad yr wyf ar fin cymryd rhan ynddo yn cael ei ganslo?

A Yn unol ag adran 23 eich contract, mae gan Estyn yr hawl i derfynu'r contract o dan amgylchiadau penodol.

Mae Adran 23.5 yn datgan *' Os na fydd angen y gwasanaethau adeg yr arolygiad oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth Estyn, yna terfynir y Contract ac ni fydd Estyn yn atebol am wneud unrhyw daliad i'r Contractwr.'*

C7 Rydw i'n Arolygydd y Cyfnod Sylfaen. Beth sy'n digwydd os byddaf i'n sâl ar ddiwrnod yr arolygiad neu fod y lleoliad ar gau oherwydd y pandemig ffliw?

A Mae gennych gyfrifoldeb cytundebol i gynnal yr arolygiad. Byddem yn disgwyl i chi drafod gyda'r lleoliad a chytuno ar ddyddiadau diwygiedig addas ar gyfer yr arolygiad cyn gynted ag y bo modd. Dylech roi gwybod i Estyn am y dyddiadau arolygu newydd.

C8 Rydw i'n gweithio mewn darparwr sydd â nifer o ddysgwyr yn absennol oherwydd y pandemig ffliw. A fydda i'n gallu mynd ymlaen fel yr asesydd cymheiriaid ar arolygiad?

A Dylech fynychu'r arolygiad oni bai nad ydych yn ddigon da i wneud hynny. Dylech wneud yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â symptomau'r pandemig ffliw ac os byddwch yn datblygu symptomau, arhoswch gartref a rhowch wybod i Estyn (02920 446446) ac, os yw'n briodol, rhowch wybod i'r Contractwr/Arolygydd Cofrestredig nad ydych ar gael.

Mwy o wybodaeth

Mae mwy o wybodaeth, gan gynnwys cyngor ar iechyd, i'w gael o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk, o wefan Galw Iechyd Cymru www.nhsdirect.wales.nhs.uk, o wefan Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru yn www.nphs.wales.nhs.uk ac o wefan yr Asiantaeth Diogelu Iechyd yn www.hpa.org.uk.

Gallwch hefyd ffonio'r Llinell Wybodaeth am Ffliw Moch ar 08001 513 513 i gael gwybodaeth wedi'i recordio, neu ffonio Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47 i gael cyngor iechyd.

2 Y Cyfnod Sylfaen

2.1 Lleoliadau nas cynhelir sy'n gymwys i gael cyllid addysg

Hoffem atgoffa arolygwyr, os oes pump neu lai o blant mewn lleoliad, yna dylent adrodd yn unig ar y ddarpariaeth y mae'r lleoliad yn ei chynnig er mwyn galluogi'r plant i gyflawni safonau uchel. Y rheol yw, os oes pump neu lai o blant mewn lleoliad, dylai arolygwyr adrodd ar y ddarpariaeth ym mhob Maes Dysgu yn unig. Mae'r rheswm am hyn yn ymwneud â diogelu data. Os oes chwech neu fwy o blant, yna dylai arolygwyr adrodd ar safonau ym mhob maes dysgu.

2.2 Addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (plant y dosbarth derbyn)

Rydym wedi ail-eirio'r cyngor ym Materion Arolygu 11, Ebrill 2009:

'Dylai arolygwyr ddisgwyl gweld cynllunio ar gyfer addysg grefyddol mewn dosbarthiadau derbyn. Gallai gael ei chyflwyno trwy waith thematig neu waith pwnc, cyn belled â'i bod yn hollol adnabyddadwy fel addysg grefyddol.'

Arweiniad ychwanegol

Dylai arolygwyr sicrhau bod y ddarpariaeth addysg grefyddol ar gyfer plant dosbarthiadau derbyn yn unol â'r Maes Llafur Cytûn lleol (ar gyfer Ysgolion a Reolir yn Wirfoddol ac Ysgolion Cymunedol) a bod cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen wedi'i gydbwyso'n briodol ar draws pob Maes Dysgu ***ac*** addysg grefyddol.

Os yw addysg i blant dan bump oed yn faes arolygu, rhaid i arolygwyr sicrhau bod cyfeiriad penodol at safonau plant mewn addysg grefyddol yn y Maes Dysgu mwyaf priodol. Dylai arolygwyr fod yn ymwybodol o'r ffaith bod addysg grefyddol yn wahanol i amrywiaeth ddiwylliannol a datblygiad personol a chymdeithasol. Isod, ceir dyfyniad o adroddiad arolygu diweddar fel enghraifft:

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

'Mewn addysg grefyddol, mae plant y dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn yn dechrau sylweddoli bod gan bobl wahanol gredoau ac arferion sy'n effeithio ar eu gwerthoedd a'u hymddygiad. Maent yn dysgu am rai o'r rhain trwy storïau a chwarae rôl.'

2.3 Maint dosbarthiadau babanod

Dylai arolygwyr fod yn effro i'r ffaith nad yw cynyddu nifer y staff mewn dosbarthiadau babanod, yn enwedig dosbarthiadau derbyn, yn golygu y gall dosbarthiadau babanod gynnwys mwy na 30 o blant i bob athro cymwysedig/athrawes gymwysedig[1]. Fodd bynnag, gall rhai plant ('plant eithriedig') gael eu diystyru at ddibenion barnu p'un a oes mwy na'r cyfyngiad o 30 o ddisgyblion ai peidio. Mae'r rhain fel a ganlyn:

a plant y mae eu datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn nodi y dylent gael eu haddysgu yn yr ysgol dan sylw, ac sy'n cael eu derbyn y tu allan i'r rownd dderbyn arferol;

[1] Rheoliadau Deddf Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 1998

b plant nad ydynt yn cael eu derbyn i ddechrau ond sy'n cael cynnig lle ar ôl hynny y tu allan i'r rownd dderbyn arferol yn ôl cyfarwyddyd gan banel apeliadau derbyn, neu oherwydd bod yr unigolyn a oedd yn gyfrifol am y penderfyniad gwreiddiol yn cydnabod y gwnaed camgymeriad wrth roi polisi derbyn yr ysgol ar waith;

c plant na allant gael lle mewn unrhyw ysgol addas arall o fewn pellter rhesymol o'u cartref gan eu bod yn symud i'r ardal y tu allan i'r rownd dderbyn arferol;

ch plant sy'n dymuno cael addysg mewn ysgol cyfrwng Cymraeg a'r ysgol dan sylw yw'r unig ysgol debyg o fewn pellter rhesymol o'u cartref;

d plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion arbennig, ond sy'n cael rhan o'u haddysg mewn ysgol brif ffrwd; a

dd phlant ag anghenion addysgol arbennig sy'n cael eu haddysgu mewn uned arbennig mewn ysgol brif ffrwd fel arfer, ond sy'n cael rhan o'u gwersi mewn dosbarth nad yw'n ddosbarth arbennig.

Mae Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) (Diwygio) 2009 yn ychwanegu tri chategori arall o 'ddisgyblion eithriedig' fel a ganlyn:

e plant y gofelir amdanynt sy'n cael eu derbyn y tu allan i'r rownd dderbyn arferol;

f disgyblion sy'n cael eu derbyn y tu allan i'r rownd dderbyn arferol sy'n dymuno cael addysg mewn ysgol o enwad crefyddol penodol a'r ysgol dan sylw yw'r unig ysgol debyg o fewn pellter rhesymol o gartref y disgybl; a

ff disgyblion o oed dosbarth derbyn sy'n cael eu derbyn y tu allan i'r rownd dderbyn arferol lle nad yw'r nifer dderbyn sy'n ymgeisio am y grŵp blwyddyn hwnnw wedi'i chyrraedd yn flaenorol.

Mae Rheoliad Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) (Diwygio) 2009 hefyd yn addasu'r categori eithrio presennol yn ymwneud â'r rheiny sy'n chwilio am addysg cyfrwng Cymraeg (ch) i fod yn berthnasol i bob grŵp blwyddyn babanod (ac nid dosbarthiadau derbyn yn unig).

Os yw arolygwyr o'r farn bod gormod o ddisgyblion mewn dosbarth babanod, ar ôl ystyried unrhyw 'ddisgyblion eithriedig', yna dylent:

- wneud datganiad yn yr adroddiad i'r perwyl hwnnw; ac
- argymell yn yr adroddiad y dylai'r ysgol fodloni'r gofyniad statudol hwn.

Ni fydd y radd ar gyfer CwA5 yn cael ei heffeithio yn yr achosion hyn, o reidrwydd, oni bai bod nifer ychwanegol y disgyblion mewn dosbarth babanod yn cael effaith negyddol ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth.

3 Materion arolygu ar gyfer ysgolion cynradd

3.1 Rôl cydlynwyr y cwricwlwm ac arweinwyr pwnc mewn ysgolion cynradd

Mae'r canlynol yn ddiweddariad i'r cyngor a gyhoeddwyd gennym yn 'Materion Arolygu 11', a ddosbarthwyd ym mis Ebrill 2009. Mae'r diweddariad bellach yn adlewyrchu darpariaethau 'Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2009' (DCAAY) yn llawn.

Pan fydd timau arolygu yn llunio barnau ynglŷn â rolau cydlynwyr cwricwlwm ac arweinwyr pwnc mewn ysgolion cynradd, mae'n rhaid iddynt gadw mewn cof p'un a yw deiliad y swydd yn y grŵp arweinyddiaeth neu mewn swydd sydd â chyfrifoldeb addysgu a dysgu (CAD).

Gellir gweld y sefyllfa statudol mewn perthynas â dyfarnu CADau ym mharagraff 21 Adran 2 y DCAYY, ac mae arweiniad statudol pellach ym mharagraffau 78 i 80 o Adran 3 y Ddogfen.

3.2 Arweiniad i Arolygwyr Cofrestredig ar ddefnyddio Setiau Data Craidd Cymru Gyfan wrth arolygu ysgolion cynradd, 2009-2010

Dylai Arolygwyr Cofrestredig fod wedi derbyn y wybodaeth ganlynol drwy'r post ddiwedd mis Medi. Caiff y wybodaeth hon ei hatgynhyrchu yma er mwyn sicrhau bod pob arolygydd yn ymwybodol o'r **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan** newydd a'r modd y mae Estyn yn disgwyl iddynt eu defnyddio mewn arolygiadau.

Cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygiad o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion yn 2008 ac o ganlyniad, penderfynodd beidio â datblygu'r gronfa ddata ymhellach yn ei fformat presennol. Nid yw'r gronfa ddata bresennol wedi bod ar gael er 31 Awst 2009 ac mae Cronfa Ddata Genedlaethol newydd y Disgyblion yn cael ei datblygu ar gyfer 2010. Yn y cyfamser, mae 'Set Data Craidd Cymru Gyfan' yn cael ei pharatoi er mwyn darparu dadansoddiadau o lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol a chanlyniadau arholiadau allanol. Bydd yr adroddiadau hyn hefyd yn ategu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

Yn ogystal, mae ysgolion hefyd yn cael nodiadau arweiniad cynhwysfawr i'w helpu i ddefnyddio'r pecynnau yn effeithiol. Rydym wedi cael copïau o'r pecynnau data erbyn hyn ac rydym yn eu hanfon at gontractwyr ar gyfer yr holl ysgolion sy'n cael eu harolygu y tymor hwn. Bydd pecynnau ar gyfer ysgolion sy'n cael eu harolygu yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf yn cael eu dosbarthu ar yr adeg arferol.

Wrth lunio barn ar CwA1, dylai arolygwyr barhau i ystyried yr un dadansoddiadau o berfformiad sy'n cael eu hamlinellu yn Atodiad 7 y llawlyfr arweiniad presennol. Fodd bynnag, mae agweddau ar y pecynnau data y dylid eu hystyried:

Teuluoedd o ysgolion

Mae'r holl ysgolion yn cael eu gosod mewn teuluoedd o ryw 10 o ysgolion yn ôl yr heriau y maent yn eu hwynebu. Mae proses dri cham yn cael ei defnyddio:

1 grwpio yn ôl cyflwyniad ieithyddol;
2 grwpio yn ôl maint (ysgolion cynradd yn unig); a
3 grwpio yn ôl proffil cyd-destunol.

Mae'r proffil cyd-destunol yn ystyried lefelau Prydau Ysgol am Ddim, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, lefelau disgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig a chyfran y boblogaeth ysgol sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Y bwriad yw y bydd ysgolion yn dod i adnabod aelodau eu teulu ac yn gallu cymharu eu perfformiad, eu cryfderau, eu gwendidau a'u cynnydd gydag ysgolion eraill sy'n wynebu heriau tebyg.

Dylai arolygwyr barhau i ystyried ac adrodd ar berfformiad ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg yn y chwarteri meincnod prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, dylent hefyd ystyried perfformiad yr ysgol o gymharu â'i theulu o ysgolion ac adrodd ynghylch a oes anghysondeb rhwng y cymariaethau gwahanol hyn.

Perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig ac un

Mae'r pecynnau data hefyd yn cynnwys dadansoddiadau o ganran y disgyblion cyfnod allweddol 1 sy'n sicrhau lefel 3 a chanran y disgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n sicrhau lefel 5 ym mhob un o'r pynciau craidd. Mae hyn yn cynnwys graffiau sy'n cymharu perfformiad yr ysgol ar lefel 3 neu lefel 5 ag ysgolion eraill yn eu teulu. Dylai arolygwyr gymharu hyn â graffiau tebyg ar gyfer y canran sy'n sicrhau lefel 2 neu lefel 4. Os oes gwahaniaeth ym mherfformiad ysgol ar y ddwy lefel mewn cyfnod allweddol mewn unrhyw bynciau craidd, dylid rhoi sylwadau ar hyn.

Ysgolion bach

Gall materion penodol godi wrth arolygu ysgolion bach. Gall grŵp blwyddyn bach achosi amrywiadau flwyddyn ar ôl blwyddyn gan fod pob disgybl yn gyfran sylweddol o'r garfan. Mae hyn yr un mor debygol o wella perfformiad ag y mae o'i wneud yn waeth ac nid yw hyn yn rheswm dros dangyflawni. Fodd bynnag, gallai ysgolion cynradd bach newid chwarteri meincnod prydau ysgol am ddim yn fwy aml nag ysgolion eraill a dylai arolygwyr ganiatáu am hyn wrth ysgrifennu unrhyw sylwadau. Ond, mae bod yn y pedwerydd chwarter flwyddyn ar ôl blwyddyn yn ddiffyg pwysig yn yr ysgolion hyn yn union fel y mae ar gyfer ysgolion mwy.

Mae maint ysgol yn un o'r meini prawf wrth greu teuluoedd o ysgolion. Mewn ysgolion bach, felly, mae'n arbennig o bwysig cymharu perfformiad yr ysgol ag ysgolion eraill yn ei theulu hefyd.

4 Materion arolygu ar gyfer ysgolion uwchradd

4.1 Arweiniad i Arolygwyr Cofrestredig ar ddefnyddio Setiau Data Craidd Cymru Gyfan wrth arolygu ysgolion uwchradd, 2009-2010

Dylai Arolygwyr Cofrestredig fod wedi derbyn y wybodaeth ganlynol drwy'r post ddiwedd mis Medi. Caiff y wybodaeth hon ei hatgynhyrchu yma er mwyn sicrhau bod pob arolygydd yn ymwybodol o'r **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan** newydd a'r modd y mae Estyn yn disgwyl iddynt eu defnyddio mewn arolygiadau.

Cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygiad o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion yn 2008 ac o ganlyniad, penderfynodd beidio â datblygu'r gronfa ddata ymhellach yn ei fformat presennol. Nid yw'r gronfa ddata bresennol wedi bod ar gael er 31 Awst 2009 ac mae Cronfa Ddata Genedlaethol newydd y Disgyblion yn cael ei datblygu ar gyfer 2010. Yn y cyfamser, mae 'Set Data Craidd Cymru Gyfan' yn cael ei pharatoi er mwyn darparu dadansoddiadau o lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol a chanlyniadau arholiadau allanol. Bydd yr adroddiadau hyn hefyd yn ategu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

Mae'r rhain yn becynnau cynhwysfawr o wybodaeth. Yn ogystal, mae ysgolion hefyd yn cael nodiadau arweiniad cynhwysfawr i'w helpu i ddefnyddio'r pecynnau yn effeithiol. Rydym wedi cael copïau o'r pecynnau data erbyn hyn ac rydym yn eu hanfon at gontractwyr ar gyfer yr holl ysgolion sy'n cael eu harolygu y tymor hwn. Bydd pecynnau ar gyfer ysgolion sy'n cael eu harolygu yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf yn cael eu dosbarthu ar yr adeg arferol.

Mae copi o'r newyddlen sy'n rhoi mwy o wybodaeth am y pecynnau hyn wedi'i atodi yn Atodiad 1

Wrth lunio barn ar CwA1, dylai arolygwyr barhau i ystyried yr un dadansoddiadau o berfformiad sy'n cael eu hamlinellu yn Atodiad 7 y llawlyfr arweiniad presennol. Fodd bynnag, mae agweddau ar y pecynnau data y dylid eu hystyried.

Teuluoedd o ysgolion

Mae'r holl ysgolion yn cael eu gosod mewn teuluoedd o ryw 10 o ysgolion yn ôl yr heriau y maent yn eu hwynebu. Mae proses dri cham yn cael ei defnyddio:

1 grwpio yn ôl cyflwyniad ieithyddol;
2 grwpio yn ôl maint (ysgolion cynradd yn unig);
3 grwpio yn ôl proffil cyd-destunol.

Mae'r proffil cyd-destunol yn ystyried lefelau Prydau Ysgol am Ddim, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, lefelau disgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig a chyfran y boblogaeth ysgol sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Y bwriad yw y bydd ysgolion yn dod i adnabod aelodau eu teulu ac yn gallu cymharu eu perfformiad, eu cryfderau, eu gwendidau a'u cynnydd gydag ysgolion eraill sy'n wynebu heriau tebyg.

Dylai arolygwyr barhau i ystyried ac adrodd ar berfformiad ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg yn y chwarteri meincnod prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, dylent hefyd ystyried perfformiad yr ysgol o gymharu â'i theulu o ysgolion ac adrodd ynghylch a oes anghysondeb rhwng y cymariaethau gwahanol hyn.

Dadansoddiadau cyfnod allweddol 3 ychwanegol

Mae pecynnau data cyfnod allweddol 3 yn cynnwys graff sy'n dangos y perfformiad DPC mewn perthynas â hawl i brydau ysgol am ddim ar gyfer y teulu o ysgolion (gweler yr enghraifft isod). Mae'r llinell yn cynrychioli'r model ystadegol sydd wedi'i gyfrifo o berfformiad pob ysgol yng Nghymru yn 2008 a gall gael ei defnyddio i amcangyfrif perfformiad 'disgwyliedig' ysgol o ystyried ei hawliau prydau ysgol am ddim. Byddai ysgol y mae ei pherfformiad gwirioneddol yn cyfateb i'w pherfformiad disgwyliedig yn ymddangos ar y llinell. Mae safle ysgol yn dangos a yw canlyniadau disgyblion yn uwch na'r disgwyl (uwch ben y llinell) neu'n is na'r disgwyl (o dan y llinell). Y pellaf y mae'r ysgol o'r llinell - y mwyaf yw'r gwahaniaeth o'r perfformiad disgwyliedig. Mae'r ysgol unigol wedi'i dangos mewn coch.

Chart 12a: Family comparison - percentage of pupils achieving the expected level in the Core Subject Indicator (CSI) vs percentage of pupils eligible for FSM in 2008, compared to modelled expected performance (2008 model)



The line represents the 2008 model of CSI performance against FSM entitlement and can be used to approximate an expected level of performance or a 'benchmark comparison' for each FSM entitlement rate. Points below the line indicate lower than expected performance; points above the line indicate higher than expected performance.
The relationship is relatively strong and consistent year-to-year, but should not be interpreted as a target for future years' performance.

Mae gan fwyafrif y grwpiau meincnod prydau ysgol am ddim ystod o 10 pwynt canran neu fwy. Mae'r graff hwn yn cymharu perfformiad ysgol yn ôl ei werth penodol o ran prydau ysgol am ddim a gall gynnig safbwynt gwahanol, yn enwedig o ran ysgolion sydd â lefel uchel neu isel o brydau ysgol am ddim o fewn eu grŵp meincnod. Os dyma'r achos, dylid rhoi sylwadau ar hyn.

Yng nghyfnod allweddol 4, darperir graffiau tebyg ar gyfer y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog a chanran y disgyblion sy'n sicrhau'r trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg yn CA4.

Perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig ac un

Mae'r pecynnau data CA3 hefyd yn cynnwys dadansoddiadau o ganran y disgyblion sy'n ennill lefel 6 neu uwch ym mhob un o'r pynciau craidd. Mae hyn yn cynnwys graffiau'n cymharu perfformiad yr ysgol ag ysgolion eraill yn y teulu. Dylai arolygwyr gymharu hyn â graffiau tebyg ar gyfer y canran sy'n ennill lefel 5 neu uwch. Os oes gwahaniaeth ym mherfformiad yr ysgol ar y ddwy lefel mewn unrhyw bynciau craidd, dylid rhoi sylwadau ar hyn.

4.2 Cwrs hyfforddiant diweddaru uwchradd: Llawlyfr i Gynrychiolwyr

Yn dilyn y cyrsiau hyfforddiant diweddaru uwchradd a gynhaliwyd yn ystod tymor yr haf, hoffem gadarnhau nad yw'r pwyntiau bwled yn nogfen 5 y llawlyfr i gynrychiolwyr, sef 'Medrau Allweddol yn y Gorchmynion Pwnc newydd' yn rhestr hollgynhwysfawr. Cymerwyd y cyd-destunau posibl lle y gellir arsylwi medrau allweddol yn cael eu defnyddio ar draws gwahanol bynciau yn y cyfnod uwchradd o amrywiaeth o ffynonellau, ac nid o'r gorchmynion pwnc yn unig. Ni ddylid ei defnyddio fel rhestr wirio nac i ystumio natur y pwnc. Gwnaethom bwysleisio ar y cwrs hyfforddiant y dylai datblygu medrau allweddol ategu medrau pwnc yn hytrach na chael blaenoriaeth drostynt.

4.3 Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

Cafodd Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 13 Mai 2009 ac, erbyn hyn, mae'n rhan o'r gyfraith. Caiff dyddiadau dechrau pob rhan o'r Mesur eu cyhoeddi yn ystod hydref 2009. Nod y Mesur yw datblygu mwy ar weithredu Llwybrau Dysgu yng Nghymru, a sicrhau bod y dewis ehangaf posibl ar gael i bob dysgwr mewn ysgolion a cholegau.

Mae'r Mesur yn creu hawl i ddysgwyr rhwng 14 a 19 oed ddilyn cwrs astudio o gwricwlwm lleol. Mae hefyd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach i gydweithio er mwyn sicrhau bod gan bobl ifanc fynediad at ddewis ehangach o opsiynau sy'n fwy addas i'w hanghenion unigol. Caiff y dewis ehangach hwn ei gynnig yng nghyfnod allweddol 4 ac adeg ôl-16.

Yn ogystal, bydd y Mesur yn sicrhau bod pobl ifanc, trwy eu Llwybrau Dysgu, yn gallu cael mynediad at ystod o wasanaethau cefnogi dysgwyr trwy anogwr dysgu, gwasanaethau cymorth personol, a chyngor ar arweiniad ar yrfaoedd.

Mae angen i arolygwyr fod yn ymwybodol o brif nodau'r ddeddfwriaeth, ac yn enwedig:

- nifer a math y cyrsiau y mae angen eu cynnig yng nghyfnod allweddol 4 ac ôl-16;
- cyflwyno'r ddeddfwriaeth yn raddol yn ôl oedran ac ardal awdurdod lleol;

- y gofyniad ar gyfer gweithio ar y cyd; a

- rhoi sylw i gwmpas swyddogaeth yr anogwr dysgu.

Bydd rheoliadau ac arweiniad hefyd sy'n esbonio sut y caiff y ddeddf ei rhoi ar waith. Bydd y rhain yn nodi nifer y dewisiadau a'r modd y caiff y gofynion eu rhoi ar waith dros amser ac mewn gwahanol rannau o Gymru. Yn y pen draw, bydd hyn yn disodli'r arweiniad yn *Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau II*, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2006 (Cylchlythyr CCC 17/2006).

Mae'r trefniadau arfaethedig ar gyfer nifer y dewisiadau y mae'n rhaid eu cynnig yng nghyfnod allweddol 4 i'w gweld yn Nhabl 1.

Tabl 1: Cyfnod allweddol 4 – nifer y cyrsiau a bandiau awdurdod lleol

Blwyddyn	2009	2010	2011	2012
Band A	28	30	30	30
Band B	26	28	30	30
Band C	24	26	28	30

Nifer y cyrsiau uchod fydd y rheiny sydd ar lefel 2, gan gynnwys nifer benodol o gyrsiau galwedigaethol ar lefel 2, er enghraifft, tri chwrs galwedigaethol lle mai 24 yw'r nifer gyffredinol, pedwar cwrs galwedigaethol lle mai 26 a 28 yw'r nifer gyffredinol, a phum cwrs galwedigaethol lle mae 30 yw'r nifer gyffredinol. Nod yr hawliad hwn yw ymestyn yr arfer bresennol, yn enwedig mewn perthynas â'r ddarpariaeth alwedigaethol ar lefel 2 i ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4, ac annog y farn bod rhaglenni galwedigaethol yr un mor werthfawr â chyrsiau cyffredinol neu academaidd.

Gosodwyd ardaloedd awdurdodau lleol yn un o'r tri band. Bydd pob band yn cynrychioli dilyniant tuag at gyflawni'r hawliad lleiaf llawn erbyn 2012.

Tabl 2: Bandiau Awdurdodau Lleol

Band A	Band B	Band C
Blaenau Gwent	Sir Gaerfyrddin	Ynys Môn
Caerffili	Castell-nedd Port Talbot	Pen-y-bont ar Ogwr
Caerdydd	Sir Benfro	Ceredigion
Sir Ddinbych	Rhondda Cynon Taf	Conwy
Sir Fynwy	Torfaen	Sir y Fflint
Casnewydd		Gwynedd
Abertawe		Merthyr Tudful
Bro Morgannwg		Powys
Wrecsam		

Caiff yr hawliad ei gyflwyno'n raddol yn ôl grwpiau blwyddyn, fel y dangosir isod:

- Medi 2009 Blwyddyn 10 (anstatudol);

- Medi 2010 Blynyddoedd 10 ac 11 (statudol);

- Medi 2011 Blynyddoedd 10, 11 a 12 (statudol); a

- Medi 2012 Blynyddoedd 10, 11, 12 a 13 (statudol).

Mewn addysg ôl-16, bydd gan ddysgwyr hawl i o leiaf 25 cwrs Safon Uwch Gyfrannol/Uwch a 5 cwrs galwedigaethol ar lefel 3. Mae trefniadau cwricwla lleol ar gyfer addysg ôl-16 yn caniatáu i gyrsiau lefel 1 a lefel 2 gael eu cynnwys.

Bydd y cwricwlwm neu'r cwricwla lleol yn cynnwys ystod eang o opsiynau.[2] Bydd gan ddysgwyr hawl i ddewis astudio o leiafswm o gyrsiau a fydd yn cynnwys llwybrau academaidd a galwedigaethol. Wrth ddewis y cyrsiau hyn, bydd angen cyngor, arweiniad a chymorth ar ddysgwyr fel eu bod yn hyderus eu bod wedi gwneud y penderfyniad cywir.

Fel arfer, byddai cwricwlwm neu gwricwla lleol yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cynnwys cyrsiau sy'n cael eu cynnig i ddysgwyr sydd ar gael:

- yn eu hysgol gofrestredig; neu

- drwy bartneriaeth a chydweithio â darparwyr eraill, fel ysgolion, colegau AB a darparwyr hyfforddiant preifat.

Mae manylion llawn y Mesur i'w gweld yn http://www.assemblywales.org/e_learning_and_skills__wales__measure_as_passed_pc_version.pdf

Goblygiadau ar gyfer arolygu

O fis Medi 2009, bydd ysgolion yn cynnig cyrsiau sy'n bodloni gofynion y Mesur hwn. Er bod y ddarpariaeth yn anstatudol yn 2009, bydd angen i chi ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion. Wrth edrych ar gwricwlwm cyfnod allweddol 4, bydd angen i chi ystyried:

- a yw'r nifer gywir o gyrsiau ar gael ar gyfer y band y mae'r ysgol ynddo;

- a yw'r nifer gywir o gyrsiau galwedigaethol ar gael ar lefel 2;

- a yw'r cyrsiau galwedigaethol yn bodloni anghenion ac amgylchiadau lleol;

- a yw'r cyrsiau'n cynnig dilyniant i'r cyfnod dysgu nesaf, er enghraifft, a oes dilyniant clir o gwrs lefel 2 i gwrs lefel 3, er nad oes rhaid i'r cwrs hwnnw fod yn chweched dosbarth yr ysgol ei hun;

[2] Gallai fod mwy nag un cwricwlwm lleol mewn ardal awdurdod lleol, er enghraifft, lle mae'r awdurdod wedi'i drefnu'n sawl gwahanol glwstwr o ysgolion a cholegau.

- a yw'r cyrsiau ar gael i bob dysgwr ac yn hygyrch iddynt, er enghraifft, gallai mynediad fod wedi'i gyfyngu i rai dysgwyr oherwydd strwythur y cynllun opsiynau; ac

- a yw'r cynigion i ddysgwyr yn rhai dilys, i'r graddau bod y cyrsiau sy'n cael eu cynnig yn cael eu cynnal mewn gwirionedd, a bod y rheiny sy'n cael eu cynnig ac nad ydynt yn cael eu cynnal, yn digwydd am reswm derbyniol.

Mae angen i chi gofio, o fis Medi 2010, bod y cwricwlwm yn statudol i Flwyddyn 10 a Blwyddyn 11. Mae hyn yn golygu y daw'r cwricwlwm anstatudol y bydd dysgwyr Blwyddyn 10 yn ei ddilyn ym mis Medi 2009 yn statudol pan fyddant yn dechrau ym Mlwyddyn 11 ym mis Medi 2010.

Dylech hefyd ystyried pa mor dda y mae'r ysgol wedi cydweithio â darparwyr eraill er mwyn ehangu'r cwricwlwm. Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar ysgolion i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cymaint â phosibl o'r cyrsiau ar gael. Wrth geisio mwyhau'r ddarpariaeth, rhaid i ysgolion geisio cydweithio pe byddai cydweithio yn cynnig ystod ehangach o gyrsiau i ddisgyblion.

Mae angen i chi adrodd ar y materion sy'n ymwneud â'r cwricwlwm yng Nghwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? Gallech roi sylwadau ar weithio mewn partneriaeth yn y cwestiwn allweddol hwn, ond hefyd, bydd angen i chi roi sylwadau ar y mater hwn yng Nghwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? Yma, bydd angen i chi ystyried rôl y llywodraethwyr yn ogystal â'r pennaeth a'r uwch reolwyr eraill.

Mae'r Mesur hefyd yn mwyhau rôl elfennau 'cymorth i ddysgwyr' Llwybrau Dysgu 14-19, a bydd angen i chi ystyried pa mor dda y mae'r ysgol

- yn darparu, yn sicrhau darpariaeth, ac yn cymryd rhan mewn darparu gwasanaethau cefnogi dysgwyr;

- yn rhoi dogfen i ddysgwyr sy'n cofnodi eu llwybr dysgu ('dogfen llwybr dysgu'); ac

- yn sicrhau bod gwybodaeth a chyngor yn cael eu cyflwyno mewn modd diduedd.

Rhaid i wybodaeth a chyngor fod at ddibenion hyrwyddo lles dysgwyr ac ni ddylent geisio hyrwyddo buddiannau unrhyw ysgol, sefydliad neu unigolyn penodol, er anfantais y dysgwr sy'n derbyn y cyngor.

Mae angen i chi adrodd ar faterion yn ymwneud â chymorth i ddysgwyr yng Nghwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?